**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 25 Hydref 2017 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | J W Jones | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Cherrie Bija | Martyn Waygood | |

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Polly Gordon | Swyddog Partneriaeth y Sector Cymunedol a Gwirfoddol |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaeth a Chomisiynu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M Sykes
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Dim

3 **Cofnodion.**

Cymeradwywyd.

4 **Ffrwd Waith Cam-drin Domestig**

**<u>Ffrwd Waith Cam-drin Domestig</u>**

- Mae'r prosiect newydd a gyflwynwyd gan Megan Stevens yn ceisio creu llwybr clir ar gyfer atgyfeirio cleientiaid gyda materion cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl a phrofiad o gam-drin sylweddau
- Ar hyn o bryd, mae'r gefnogaeth ar chwâl - nod y prosiect hwn yw cael asiantaeth i gymryd yr awenau
- Mae cynnwys a chadw cleientiaid yn anodd o ystyried natur brysur eu ffyrdd o fyw
- Rhaid i'r gefnogaeth fod yn briodol a cheisio lleihau atgyfeiriadau o ganlyniad i hynny
- Ceisio osgoi dyblygu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau'n effeithiol
- Nid yw'n wasanaeth mandadol - rhaid bod awydd ar gleientiaid i gymryd rhan
- Caiff y prosiect ei fonitro drwy adran ganlyniadau ar y ffurflen atgyfeirio
- Edrych ar deilwra'r hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' presennol i ganolbwyntio ar iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau hefyd
- Mae'r prosiect yn cysylltu â sefydliadau'r trydydd sector i geisio sicrhau bod yr holl wasanaethau perthnasol yn cydweithio ac yn cyfathrebu fel nad ydym yn dyblygu gwaith a gwneud yr atgyfeiriad mwyaf effeithiol
- Mae'r prosiect yn rhad o ran comisiynu yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru'n edrych ar y prosiect hwn am arfer da

5 **Ffrwd Waith Heneiddio'n Dda**

**<u>Heneiddio'n Dda</u>**

- Daeth y ffrwd waith i rym ym mis Gorffennaf 2016 wrth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gael ei ddatblygu
- 'Byw'n Dda, Henieddio'n Dda' yw enw arfaethedig yr amcan newydd yn y Cynllun Lles, ond nid ymgynghorwyd ar y cynllun hwnnw eto na'i fabwysiadu'n ffurfiol.
- Y nod yw gwella lles ar y cyd â chymunedau ac asiantaethau
- Mae holl Bartneriaid y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cydnabod fel bod yn ystyriol o ddementia
- Gweithio gyda chynllunwyr a dylunwyr i wneud tai newydd yn addas i bobl hŷn
- Mae Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yn boblogaidd iawn
- Ceir tystiolaeth fod ehangu rolau Cydlynwyr Ardaloedd Lleol i wardiau cyfagos wedi bod yn llwyddiannus
- Mae'r gwasanaeth sy'n ystyriol o ddementia'n cefnogi pobl â dementia ond hefyd y rhai sy'n cynnig y gofal hefyd
- Mae hyrwyddo digwyddiadau'n heriol ac mae'r adran yn edrych i gynyddu cyfranogiad gwirfoddolwyr
- Dywedodd Cherrie Bija wrth y grŵp bod ei gwasanaeth yn cynnal clybiau cinio rhwng y cenedlaethau lle gall pobl o bob oedran ddod ynghyd a rhannu cyngor ar bethau fel defnyddio tabledi digidol
- Mae cyfradd diffyg cyfranogiad mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant gan bobl hŷn bedair gwaith yn uwch o'i chymharu â phobl ifanc 16 i 25 oed

6 **Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Cadarnhawyd y bydd y cyfarfod nesaf yn adolygu'r Cynllun Lles drafft.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm

**Cadeirydd**